| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 24 Medi 2013 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. Julian Thompson-Hill |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Pennaeth Cyllid ac Asedau |
| **Teitl:** | Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2012/13 (Atodiad 1) |

## 1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am fuddsoddiadau a benthyciadau'r Cyngor yn ystod 2012/13. Mae'r adroddiad hefyd yn darparu manylion o ran y sefyllfa economaidd pryd hynny a sut bu i'r Cyngor gydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus.

## 2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Prif ddiben yr adroddiad hwn yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar berfformiad dull rheoli'r trysorlys ac i ddangos cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn 2012/13.

## 3 Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Gofynnir i'r Cabinet nodi Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2012/13.

## 4 Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae'r adroddiad yn nodi manylion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ac yn darparu trosolwg o'r cefndir economaidd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi goblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys ac yn cadarnhau bod y gweithgareddau yn cydymffurfio â therfynau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus.

## 5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthyca da yn caniatáu symud adnoddau ychwanegol i wasanaethau eraill y Cyngor.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Amherthnasol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

7.1 Nid yw hyn yn ofynnol fel rhan o'r adroddiad hwn.

## 8 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

8.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Cyf.

8.2 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ar weithgareddau Rheoli Trysorlys y flwyddyn flaenorol ac wedi adolygu’r adroddiad hwn cyn ei gyflwyno i’r Cabinet.

## 9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Mae a wnelo Rheoli Trysorlys ag edrych ar ôl symiau sylweddol o arian parod, felly mae’n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae’n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, i sicrhau ein bod yn derbyn adenillion ar fuddsoddiad ac ein bod yn rheoli dyled yn effeithiol ac yn ddoeth.

9.2.1 Mae Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor baratoi adroddiad blynyddol ar weithgareddau’r trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Gofynnir i’r Cyngor nodi perfformiad dull Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2012/13 a’i gydymffurfiaeth â’r Dangosyddion Darbodus, fel yr adroddir yn yr Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2012/13.

## 10 Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1 Mae Rheoli Trysorlys ynddo’i hun yn risg, ond mae’r Cyngor yn monitro ac yn rheoli’r risgiau fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae’n amhosib dileu’r risgiau hyn yn gyfan gwbl. Mae strategaeth a threfnau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu harchwilio yn flynyddol. Roedd adolygiad diweddaraf o’r archwiliad mewnol yn gadarnhaol ac nid oedd unrhyw fater sylweddol yn codi.

## 11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys, sy'n penderfynu ar y gofyniad i'r Cabinet dderbyn adroddiad blynyddol ar weithgareddau’r trysorlys yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.